



# THE LEARNED SOCIETY OF WALES CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION  
YR AKADEMI GENEDAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

## Ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru – Adolygiad Annibynnol yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o S4C

### Hydref 2017

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i adolygiad yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o S4C.

#### Yr iaith Gymraeg

Sefydlwyd S4C, ac mae'n dal i fodoli, oherwydd sefyllfa unigryw'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn y DU. Mae wedi datblygu'n sefydliad gwerthfawr dros ben yng Nghymru. Mae wedi helpu i gynnal yr iaith ac wedi chwarae rhan hanfodol yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu a thyfu.

Fel y nododd adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Tu Allan i'r Bocs*, rhaid i'w phrif rôl gynnwys parhau i ddarparu gwasanaeth yn ei hiaith ei hun i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac yn wir ar draws y DU a'r byd. Dylai cylch gorchwyl diwygiedig i'r sianel gadarnhau hyn yn ogystal ag adlewyrchu ei rôl ehangach, o ddarpariaeth i hyrwyddo, gyda'r Gymraeg yn cael ei gweld yn iaith fywiog a pherthnasol.

Yn hyn o beth, dylai ei gallu i greu partneriaethau newydd i ddatblygu mentrau sy'n cyfrannu at strategaeth 'Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru ddod yn rhan o'i chylch gorchwyl, ac mae symud i orllewin Cymru'n gyfle i ysgogi hyn.

Wedi dweud hynny, ni ellir gadael y gwaith o gynyddu gweledded y Gymraeg ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i S4C ar ei phen ei hun; dylai pob darlledwr sector cyhoeddus yng Nghymru wneud newidiadau i hybu'r iaith wrth iddynt wynebu eu cyfrifoldeb i greu cymdeithas gynhwysol.

#### Effaith Ddiwydiannol, Gymdeithasol, Economaidd

Mae S4C yn parhau i gomisiynu a bod yn llwyfan ar gyfer rhaglenni hanes a dogfen sy'n cynnig llwybrau sylweddol ar gyfer mewnbwn academaidd. Mae i bob pwrrpas yn unigryw yn ei defnydd eang o arbenigedd academaidd Cymraeg mewn cyfresi llwyddiannus fel *Mamwlad a Dylan ar Daith*. Dylid ymchwilio a meithrin ystyriaeth i anghenion addysgol Cymru, gyda rhaglenni'n gysylltiedig â chwricwla hanes, llenyddiaeth a Bagloriaeth Cymru.

Y tu hwnt i'r effaith ddiwylliannol a ddaw ymhlyg ac yn echblyg o ddarlledu a gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae i S4C rôl bwysig yn cryfhau hunaniaeth Gymreig a mynegi cof a phrofiad cyfunol y Cymry. Mae hyn y tu hwnt i'w gwaith pwysig yn hyrwyddo 'diwylliant' yn ei ystyr cul yn gysylltiedig ag e.e. y sin gerddoriaeth Gymraeg, llenyddiaeth, ffilm, theatr a'r celfyddydau ac ati yn Gymraeg, gan ehangu i greu cymuned ag iddi ystyrion cyffredin.

Er bod yr ystyrion hyn yn cael eu mynegi yn Gymraeg, maent yn berthnasol i Gymru gyfan, yn enwedig wrth i ni gofleidio realiti sefydlu cenedl ddwyieithog a derbyn dwyieithrwydd fel set sgiliau ag iddi rychwant eang, o ddealltwriaeth i ruglder. Mae angen deall a chefnogi potensial S4C fel hyrwyddwr allweddol y trawsnewid hwn mewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Yn hyn o beth mae'n gyfrwng gwerthfawr ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â hamdden a dysgu ar y daith at adfywio cymunedol.

Yn ogystal â'i harlwy diwylliannol, mae angen deall cyfraniad S4C at yr economi'n llawn a sefydlu trefniadau fel y gall barhau i chwarae ei rhan o ran adfywio economaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r diwydiannau creadigol yn sector o addewid i economi Cymru. Mae llawer i adeiladu arno, o ystyried yr astudiaeth academaidd o gerddoriaeth a drama a geir ledled Cymru ynghyd â galluoedd TG. Mae potensial sylweddol i hyn, nid yn unig ar gyfer darlledu cyfrwng Cymraeg ond gwerthiant allanol a gaiff ei ddybio i ieithoedd eraill. Ymhellach mae cynsail cyffrous 'Hinterland' yn cynnig sail ar gyfer cynhyrchu rhaglenni'n gyfochrog ac yn effeithlon y gellir eu darlledu yn Gymraeg a Saesneg.

Mae angen i S4C allu meithrin ei pherthynas gyda'r sector annibynnol o ran cynhyrchu yn ogystal â datblygu perthynas gyda'r amrywiaeth ehangaf bosibl o sefydliadau yng Nghymru o ran cynnwys. O'r Urdd i'r Prifysgolion, o fenter gymunedol i dalent unigol, mae pob agwedd ar fywyd Cymru'n ffynhonnell bosibl o gynnwys i S4C a dylid cydnabod hynny. Mae perthynas S4C a Chanolfan Mileniwm Cymru yn batrwm cydfuddiannol i ddosbarthu profiad diwylliannol ar draws Cymru.

## Cyllid

Mae S4C wedi dioddef toriadau sylweddol dros y blynnyddoedd diweddar. Yn 2011-12, derbyniodd S4C £101 miliwn gan Lywodraeth y DU, a phe byddai wedi cyd-fynd â chwyddiant, byddai angen i'r cyfraniad heddiw fod o ddeutu £111 miliwn. Ond mae cyllid S4C wedi'i dorri i £81.3 miliwn yn unig yn 2016-17.

Er ei bod yn demtasiwn i wneud dim ond galw am adfer cyllid S4C i lefelau blaenorol, y brif flaenoriaeth yw y dylid darparu cyllid digonol i S4C allu cyflenwi gwasanaeth modern ar draws amrywiaeth o blatfformau, a bod y cyllid hwnnw'n sefydlog ac wedi'i neilltuo dan unrhyw drefniadau llywodraethu diwygiedig.

Rhaid sefydlu trefn gadarn i ddiogelu a chynyddu cyfran S4C o ffi'r drwydded a'i grant llywodraethol. Mae cymharu S4C a'r BBC o ran gweithgaredd masnachol yn gymhariaeth annheg. Mae raison d'être S4C yn wahanol i'r BBC. Ymhellach ni all y posibilrwydd realistig o fasnacheiddio S4C gystadlu â'r BBC. Nid dadl yw hyn dros osgoi datblygu masnachol. Rhaid datblygu hynny, ond ni all budd masnachol fod yn ddigon ynddo'i hun a byddai'n tynnu'r ffocws oddi ar y ddyletswydd graidd i'r iaith Gymraeg.

## Llywodraethu, Rheoleiddio a Chylch Gorchwyl

Yn y dyfodol Ofcom ddylai reoleiddio S4C dan drefniant trwydded gwasanaeth clir, gyda bwrdd unedol yn debyg i'r hyn sydd gan y BBC yn disodli Awdurdod S4C.

Mae S4C yn atebol i lawer o randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau lleol, Cymru gyfan, ei chyfranwyr diwylliannol, ond hefyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Efallai y gallai S4C ymrwymo i weithio o fewn paramedrau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyn o beth, ond yn sicr mae angen dyfeisio ffyrdd o gysylltu gwaith S4C yn agosach â'r strategaeth Miliwn o Siaradwyr. Ceir cysylltiadau symbiotig rhwng llawer o bartneriaid i sicrhau gwasanaeth teledu sy'n gwneud cyflawnader â'r weledigaeth a geir ynddi ac sy'n cyflenwi ei hamcanion.

Beth bynnag fydd y trefniant llywodraethu newydd, rhaid sicrhau y bydd yr amrywiol elfennau o ffrydiau cyllido S4C gyda'i gilydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sianel. Mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng y ffynonellau hyn e.e. cyllid grant, refeniw masnachol a'r gyfran o ffi'r drwydded.

Mae'n hanfodol fod annibyniaeth olygyddol S4C yn cael ei diogelu tra bo'r cydweithio gyda'r BBC a chyrff sector cyhoeddus eraill sy'n darparu cyfryngau yn y Gymraeg yn parhau. Rhaid diogelu'r annibyniaeth olygyddol hon dan unrhyw drefniant newydd.

Cytunwn ag argymhelliaid Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid diwygio cylch gorchwyl S4C i waredu'r cyfngiadau cyfredol o ran daearyddiaeth a theledu yn unig, er mwyn hwyluso darpariaeth Gymraeg aml-blatfform ar draws y DU (*Tu Allan i'r Bocs: Dyfodol S4C*).

Ymhellach, mae'r cylch gorchwyl darlledu cyfredol wedi dyddio, a dylai S4C gael ei hailddosbarthu'n "ddarparwr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus" yn hytrach na darlledwr. Bydd ehangu'r cylch gorchwyl yn golygu y bydd angen buddsoddiad pellach; ond os yw S4C am barhau'n berthnasol yna mae ehangu o'r fath yn hanfodol.

Mae cynnwys ar-lein yn gynyddol bwysig i blant a phobl ifanc, sy'n gyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg heddiw, ac mae'n hanfodol i S4C ddatblygu'r agwedd hon o'i gwaith os yw am barhau'n berthnasol ac os yw buddsoddiad cyhoeddus am gael yr elw gorau bosibl.

Fodd bynnag mewn unrhyw ddiffiniad diwygiedig o gylch gorchwyl S4C, rhaid atgyfnerthu'r pwyslais ar 'wasanaeth cyhoeddus' er mwyn iddi allu parhau'n driw i'w diben hanfodol a chael ei gwarchod rhag offerynnau mesur masnachol.

[lsw@wales.ac.uk](mailto:lsw@wales.ac.uk) / 02920 3796971